



## Cyd-destun

Defnyddir 'gofal argyfwng' a 'gofal brys' yn aml yn gyfnewidiol, gyda chanfyddiadau gwahanol o ystyr. Gall hyn achosi dryswch gyda darparwyr gofal a'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'r defnyddwyr gwasanaeth am gael ymdeimlad cliriach o flaenoriaethau gwasanaeth ac eglurder o ran beth yw diben gwahanol wasanaethau.

Mae'n anodd diffinio'r cysyniad o 'ofal brys'. Mae llawer o'r llenyddiaeth yn cyfeirio at ofal brys yn gyffredinol, yn hytrach nag yn benodol at ofal sylfaenol argyfwng.

Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at yr adeiladweithiau a ddefnyddir wrth ffurfio'r diffiniadau hyn o ofal brys a gofal argyfwng, y diffyg penodoldeb o gylch y termau, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddefnyddwyr.

### Diffiniad syml o ofal sylfaenol brys a gofal argyfwng

#### Gofal sylfaenol brys:

Materion iechyd a lles a allai arwain at niwed sylweddol neu barhaol os na chânt eu trin o fewn yr 8 awr nesaf.

#### Gofal argyfwng:

Materion iechyd a lles a allai arwain at niwed neu farwolaeth sylweddol neu barhaol os na fyddant yn cael eu trin ar unwaith.

## Yr angen am ddiffiniad clir

Mae angen dealltwriaeth gliriach o'r hyn sy'n ofal sylfaenol brys, ac mae tystiolaeth wedi dangos bod defnyddwyr gwasanaeth am gael ymdeimlad cliriach o flaenoriaethau gwasanaeth ac eglurder o ran diben gwasanaethau.

Comisiynwyd Prifysgol De Cymru i gynnal adolygiad academiaidd o lenyddiaeth. O'r 60,000 o bapurau yn y maes hwn, roedd 170 yn crybwyll y diffiniad o ofal brys.

Nododd ffocws y papurau hyn bedwar adeiladwaith eang a ddefnyddir wrth ffurfio eu diffiniadau:

- Ffactorau ffisiolegol
- Iaith berthynol
- Nodweddion y gwasanaeth iechyd
- Anghenion canfyddedig cleifion

Mewn trafodaethau gan y Grŵp Cyfeirio Clinigol Gofal Sylfaenol Brys cenedlaethol a'r Bwrdd Gweithredu, nodwyd y byddai'n werth darparu diffiniadau syml i wahaniaethu rhwng y termau.

Roedd y prif adeiladweithiau a drafodwyd yn cynnwys difrifoldeb y materion meddygol a'r amserlen y mae'n rhaid ymdrin â'r mater.

Canolbwyntiwyd ar nodi beth oedd ystyr y pedwar adeiladwaith a darparu gofal priodol i'r claf er mwyn lleihau unrhyw risg o niwed sylweddol neu barhaol.





### Diffiniad estynedig o ofal sylfaenol brys

Materion iechyd a lles a allai arwain at niwed sylweddol neu barhaol os na chânt eu trin o fewn yr 8 awr nesaf.

Mae gwasanaethau gofal sylfaenol brys yn cynnwys ymgynghoriad ffôn drwy apwyntiadau gofal sylfaenol ar yr un diwrnod /y tu allan i oriau, NHS111 Cymru\* (gan gynnwys yr Hyb Cymorth Clinigol 111), cyngor gan fferyllfeydd, a/neu gyfeirio at ganolfan gofal sylfaenol brys (CGSB).

\*Os yn ansicr pa wasanaeth sydd ei angen, gall GIG111 Cymru helpu i asesu a chyfeirio at y gwasanaeth/gwasanaethau priodol.

### Diffinio gofal sylfaenol brys

Llywiodd yr angen am eglurder drafodaethau'r grwpiau braenaru cenedlaethol wrth fireinio'r diffiniadau o ofal sylfaenol brys a gofal brys.

Er mwyn darparu diffiniadau clir a phwrpasol, gwelwyd gwerth eu gwneud mor syml â phosibl. Y prif adeiladwaith y ffurfiwyd y diffiniadau o'i gwmpas oedd yr agweddau ffisiolegol ar ofal sylfaenol brys a gofal argyfwng, yn enwedig difrifoldeb y salwch neu'r anaf a sut mae hyn yn ymwneud â'r amserlen y mae'n rhaid ymdrin â'r mater meddygol.

O ran difrifoldeb, ystyrir y dylid cadw gofal argyfwng ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol lle mae risg o niwed neu farwolaeth sylweddol neu barhaol os nad ymdrinnir â'r mater ar unwaith. Gyda gofal sylfaenol brys, mae dal perygl o niwed sylweddol neu barhaol os na chaiff ei drin o fewn amserlen benodol.

Yn seiliedig ar yr adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru a thrafodaethau pellach, datblygwyd diffiniadau syml drafft o ofal sylfaenol brys a gofal argyfwng.

Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y diffiniadau drafft hyn i helpu i lunio'r gwaith o ddatblygu Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (CGSBau) a bydd y diffiniadau'n cael eu hadolygu'n barhaus wrth i'r model cenedlaethol ddatblygu.

Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ehangu'r diffiniad o ofal sylfaenol brys i gynnwys gwybodaeth ychwanegol am yr adeiladweithiau eraill, yn enwedig o ran nodweddion y gwasanaeth iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: [SPPC@wales.nhs.uk](mailto:SPPC@wales.nhs.uk)



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**